25.02.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# "Mi roedd 'na ryw barchus ofn at yr heddlu am flynyddoedd...Mae hynny wedi hen fynd."

Mae cyrraedd adref o'r gwaith yn saff yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom yn cymryd yn ganiataol. Ond, i'r heddlu, mae hyn yn risg dyddiol ac yn risg sy'n cynyddu.

Trwy gamerâu yn y ceir ac yn y ddalfa yn ogystal â chamerâu cyrff, mae cyfres **Y Llinell Las** wedi bod yn dilyn Uned Plismona'r Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru wrth eu gwaith rhyfeddol o ddydd i ddydd.

Mae'r rhanbarth yn gwarchod ardal eang iawn – bron i draean o dir Cymru, ac mae'r problemau sy'n codi yn amrywiol iawn o ardal i ardal – o ddinasoedd y Dwyrain i gefn gwlad y Gorllewin.

Ac mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ymosodiadau yn erbyn yr Heddlu, rhywbeth sydd – yn anffodus – yn digwydd yn amlach nag erioed i heddweision.

Bu dros 30,000 o ymosodiadau ar heddweision Cymru a Lloegr yn 2019/20. Dros 10,000 o'r rhain yn ymosodiadau niweidiol. Yn y bennod yma o **Y Llinell Las**, cawn olwg syfrdanol ar yr ymosodiadau cynyddol hyn a'r casineb ymysg rhai yn erbyn yr Heddlu.

Yn ôl Sgt Meurig Jones:

"Anaml iawn 'da ni'n cael neb yn diolch i ni. 'Da ni'n cael ein galw yn bob enw, 'da ni'n cael ein cicio, 'da ni'n cael ein poeri arno. Dydi o ddim y beth neis, does 'na neb yn mynd i'w gwaith i gael hynny."

Mae cyfnod Covid-19 wedi gwneud y swydd hyd yn oed yn fwy peryglus, gan fod nifer o'r heddweision bellach yn gweithio fel unigolion ac nid mewn grŵp neu barau. Mae gan bob un heddwas radio â botwm sy'n gallu cael ei bwyso os yw'r heddwas mewn trwbl ac angen help ar frys.

Yn ôl PC Alun Jones:

"Munud ti'n pwsio hwnna, *all hell breaks loose*. Mae pawb yn gollwng pob dim ac yn mynd syth ata ti achos mae nhw'n gwybod, *it's gone rong*."

Ond oherwydd natur yr ardal eang hon, mewn rhai achosion, does neb yn gallu cyrraedd am ugain munud. Ac mae ugain munud yn amser hir yn enwedig gyda grŵp o bobl peryglus yn amgylchynu o gwmpas.

Yn y rhaglen, cawn weld sawl achos o ymosodiadau yn erbyn yr heddlu, ac un o'r rhai sydd wedi profi ymosodiad difrifol yw PC Rich Priamo o Wrecsam.

Mae Rich yn falch iawn o'i waith a'i gymuned, ac yn dod o deulu agos iawn. Ganwyd tad Rich yn yr Eidal, a cafodd ei daid ei ddal fel carcharor rhyfel a'i ddanfon i Rhuthun, ble ddaeth gweddill y teulu i fyw ar ôl y rhyfel.

Ym mis Awst 2019, cafodd Rich ei alw i dŷ yn Wrecsam ac wrth agor y drws, cafodd ei daro yn ei ên, ei drwyn a'i lygaid cyn cael ei bigo i fyny a'i daflu allan o'r tŷ i'r llawr. Cafodd ei daro'n anymwybodol, a tydi o ddim yn cofio dim ar ôl hynny. Cawn weld y ffilm o gamerâu cyrff yr heddweision cyfagos sy'n ceisio helpu Rich, sy'n gorwedd ar y llawr, trwy gymorth cyntaf.

Bu yn yr ysbyty am dair wythnos yn methu cerdded nac ysgrifennu. Dedfrydwyd y troseddwr i 22 mis o garchar, ond cafodd ei ryddhau ar ôl 6 mis.

Meddai Rich:

"Nath o gerdded allan cyn i fi ddod yn ôl i'r gwaith llawn amser. Mae *recovery* fi wedi cymryd lot mwy o amser na'i *prison sentence* o."

Mi roedd gwella'n broses anodd i Rich. Derbyniodd help am Anhwylder Pryder Ôl-drawmatig (PTSD), a newidiodd ei fywyd:

"Dwi ddim yn gadael i ddim byd stopio fi. Dwi dal yma, dal yn trio bod mor gryf a dwi'n gallu bod – dwi'n ennill.

"Nath hynny ddysgu fi bod bywyd yn gallu newid fel 'na...*Live for now* ydi'r unig neges dwi'n anfon."

Doedd peidio dychwelyd i'r gwaith ddim yn opsiwn i Rich, sydd, fel pob un o'r heddweision yn y gyfres, ag agwedd rhyfeddol i'w gwaith:

"Dydi o ddim wedi taro Rich. Mae o 'di taro'r iwnifform...Oedd gen i opsiwn ar ôl yr *assault* i orffen – dwi ddim yn gadael i neb *dictatio* sut dwi'n gweithio a sut dwi'n byw bywyd fi. Mae plismona yn fy ngwaed i...Fyswn i byth yn gadael."

**Y Llinell Las**
**Nos Fawrth 9 Mawrth 9.00, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Slam Media ar gyfer S4C**

25.02.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# "There was a respectful fear of the police for years…That has long gone."

Getting home from work safely is something that most of us take for granted. But, for the police, this is a daily risk, and a risk that's increasing.

With in-car, custody and body cameras, **Y Llinell Las** (The Blue Line) series has been following North Wales Police Roads Policing Unit in their incredible day-to-day work.

The North Wales Police region covers an exceptionally wide area - nearly a third of Wales's land, and the problems that arise are very diverse from area to area - from the cities in the east to the countryside of the west.

And this episode focuses on attacks against the Police, something that, unfortunately, happens more often than ever to police officers.

There were over 30,000 assaults on police officers in England and Wales in 2019/20. More than 10,000 of those were harmful attacks. In this episode of **Y Llinell Las**, we get a shocking look at these escalating attacks and the hatred amongst some towards the Police.

Sgt Meurig Jones said:

"We rarely get anyone thanking us. We are called every name, we're kicked, we are spat on. It's not a nice thing, nobody goes to work to get that."

The Covid-19 pandemic has made the job even more dangerous, as many of the police officers now work as individuals and not in groups or pairs. Each police officer has a radio with a button that can be pressed if he or she is in trouble and urgently needs help.

PC Alun Jones said:

"The minute you push that, all hell breaks loose. Everyone drops everything and go straight to you because they know, something's gone wrong."

But due to the nature of this wide area, in some cases, no one can arrive for 20 minutes. And 20 minutes is a long time especially with a group of dangerous people circling around.

In the programme, we see several cases of attacks against the police, and one victim of a serious attack is PC Rich Priamo from Wrexham.

Rich is very proud of his work and community and comes from a very close family. Rich's father was born in Italy, and his grandfather was captured as a prisoner of war and sent to Ruthin, where the rest of the family came to live after the war.

In August 2019, Rich was called to a house in Wrexham and when he opened the door, he was hit in his jaw, nose and eyes before being picked up and thrown to the floor. He was knocked unconscious and remembers nothing after that. We see the footage from the nearby police officers trying to help Rich, who is lying on the floor, with First Aid.

He was in hospital for three weeks and unable to walk or write. The offender was sentenced to 22 months imprisonment but was released after six months.

Rich said:

“He walked out before I came back to work full time. My recovery has taken a lot longer than his prison sentence.”

Recovering was a difficult process for Rich. He received help for Post Traumatic Stress Disorder, which changed his life:

“I don't let anything stop me. I'm still here, still trying to be as strong as I can be - I'm winning.

"That taught me that life can change in an instant...The only message I'm sending is live for now."

Not returning to work was not an option for Rich, who, like all the police officers in the series, has a phenomenal attitude to his work:

“This hasn't hit Rich. It’s hit the uniform...I had an option to finish after the assault - but I don't let anyone dictate how I work and how I live my life. Policing is in my blood...I would never leave.”

**Y Llinell Las**
**9 March, 9.00pm**
**Welsh and English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Slam Media production for S4C**